

“ Yn dilyn rhyddhau tueddiadau bwyta cig oen gan Kantar, mae data'n dangos bod defnyddwyr wedi glynu at draddodiad a sbwylio eu hunain i ddarnau rhost y Pasg hwn. Bydd Bwletin y farchnad y mis hwn yn edrych ar y tueddiadau siopa Pasg hyn yn fwy manwl. ”

Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes



CIG OEN YN Y PASG


Er gwaethaf gweld gostyngiad mewn chwyddiant prisiau bwyd i'r lefel isaf ers dwy flynedd yn yr wythnosau diwethaf, mae cyfran nodedig o siopwyr yn dal i fynegi heriau ariannol, fel y datgelwyd gan y mewnwelediadau diweddaraf gan Kantar, arbenigwyr mewn data paneli defnyddwyr. Mae'r sefyllfa hon yn parhau oherwydd y cynnydd parhaus ym mhrisiau defnyddwyr, hyd yn oed yng nghanol cyfnod o leddfu cyfradd chwyddiant. O ganlyniad, mae'r cartref cyffredin wedi gwario £36.60 y Pasg hwn

o'i gymharu â £35.08 y llynedd. Fodd bynnag, roedd siopwyr yn dal i edrych i fwynhau'r Pasg hwn, gyda chyfanswm y categori cig coch yn gweld cynnydd o bron i 1% ar y flwyddyn ar gyfer y pythefnos a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 - er bod y prisiau cyfartalog 3.6% yn uwch na'r Pasg diwethaf. Mae cig coch yn mynd dros y mynegai adeg y Pasg, ond mae cig oen yn arbennig yn brotein poblogaidd yn ystod yr achlysur - gyda chig oen yn arwain y ffordd yng Nghymru yn ystod y Pasg hwn.


DARNAU RHOSTIO CIG OEN

Mae data Kantar ar gyfer cyfnod y Pasg yn 2024 yn datgelu tuedd i ddefnyddwyr sy'n ffafrio ymbleseru yn nhraddodiadau'r Pasg dros bryderon ariannol hirdymor, oedd i'w weld gan nifer cynyddol o bryniannau yn y categori Cig Oen ledled Prydain Fawr. Ymhlith yr holl opsiynau protein, mae cig oen yn sefyll allan gyda'r twf mwyaf cadarn flwyddyn ar flwyddyn o'i gymharu â'r Pasg blaenorol, yn enwedig yng Nghymru lle mae cyfeintiau wedi cynyddu bron i 9%. Yn nodedig, darnau rhostio cig oen wnaeth arwain y twf hwn, gan brofi cynnydd rhyfeddol o 24% mewn cyfaint flwyddyn ar flwyddyn a chyfrif am 73% o gyfanswm cyfaint cig oen a werthwyd.

Denodd y cynnydd mewn pryniannau darnau rhostio ar y cyd 296,000 o siopwyr ychwanegol, gan nodi cynnydd sylweddol mewn gwariant categori. Mae ffigurau Kantar yn awgrymu mai Cig Oen enillodd y Pasg hwn wrth i lawer o siopwyr droi i ffwrdd oddi wrth proteinau eraill (fel Cyw iâr) i'r categori Cig Oen, yn lle'r proteinau rhatach fel maen nhw wedi bod yn ei wneud o'r blaen. Mae hyn yn awgrymu bod defnyddwyr wedi glynu at draddodiad a thretio eu hunain i ddarnau rhostio y Pasg hwn, er bod llawer yn parhau i brofi pwysau ariannol.



HYRWYDDIADAU MEWN SIOPAU



Mae darnau rhostio cig oen wedi dangos twf rhyfeddol o ran cyfaint, er gwaethaf eu cost gymharol uwch ymhlith darnau cig coch eraill. Er y gallai prynu cynhyrchion cig coch wedi'u rhewi fod wedi bod yn un llwybr posibl i siopwyr sy'n ceisio gwerth y Pasg hwn, gostyngodd nifer yr eitemau o'r fath a werthwyd 4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, tra bod gwerthiant cig coch ffres wedi cynyddu bron i 2%. Roedd siopwyr, yn lle hynny, yn dod o hyd i werth trwy gynigion hyrwyddo. Yn ystod y Pasg, mae'r mwyafrif o fanwerthwyr fel arfer yn cynyddu hyrwyddiadau ar draws pob categori cynnyrch. Yn nodedig, profodd pob protein cig coch dwf mewn hyrwyddiadau o'i gymharu â'r Pasg diwethaf; fodd bynnag, roedd Cig Oen yn sefyll allan fel yr unig brotein i sicrhau twf cyfaint pan oedd wedi'i gynnwys mewn hyrwyddiadau a phan nad oedd wedi'i gynnwys mewn hyrwyddiadau. Roedd cigyddion yn dyst i ostyngiad o bron i 20% mewn cyfaint o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o bosibl oherwydd eu pwynt pris uwch ar gyfartaledd, ynghyd â llai o allu i drosoli hyrwyddiadau o'i gymharu â manwerthwyr eraill yn ystod tymor y Pasg.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?

Mae penderfyniadau siopwyr yn ystod y Pasg yn gyson yn tueddu tuag at draddodiad, er gwaethaf pris cyfartalog uwch Cig Oen gan ei fod yn uchel ei barch am ei ansawdd a'i flas uwchraddol, gan ei wneud yn opsiwn protein premiwm. Fodd bynnag, mae hyrwyddiadau yn chwarae rôl.

Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn dod i ben 18 Mai

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **484.6c/kg**. Roedd hyn:

- 0.6c ar yr wythnos flaenorol,
- 5.3c islaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 481.8c/kg (+0.7c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 470.9c/kg (-3.2c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 359.0c/kg (+0.3c ar yr wythnos).

Trwybwn – Ebrill 2024

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 234,600 pen – cynnydd o 10% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 178,300 pen - i fyny 10% ar y flwyddyn.
 - bustych +13%, heffrod -14%, a theirw ifanc -20%.
- Cyfartaledd pwysau carcassau gwartheg dethol = 340.6kg (-3.7kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 46,600 pen - cynnydd o 6% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 18 Mai

Roedd y pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain ar gyfartaledd yn 827.5c/kg. Roedd hyn:

- + 4.6c ar yr wythnos flaenorol

Cyrhaeddodd y niferoedd a ddaeth ymlaen 23,850 pen. Roedd hyn:

- + 10% ar yr wythnos flaenorol, a
- + 127% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

Noder: Oherwydd newid ym methodoleg arolwg pwysau marw Prydain Fawr (o 25/11/2023) rydym yn argymhell bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau hanesyddol.

Trwybwn – Ebrill 2024

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 918,700 pen – gostyngiad o 14% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 822,100 pen – i lawr 13% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass ŵyn ar gyfartaledd = 20.9kg (+1.4kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogïaid a hyrddod difa = 96,600 pen – i lawr 23% ar y flwyddyn.

MOCH


Prisiau – yr wythnos yn dod i ben 11 Mai

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **211.6c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.5c ar yr wythnos flaenorol,
- - 8.7c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 38.3c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 173.3c/kg).


Trwybwn – Ebrill 2024

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 836,700 pen – cynnydd o 7% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 819,300 pen – cynnydd o 7% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass moch glân cyfartalog = 90.2kg (+0.9kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 17,400 pen – cynnydd o 8% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU
Ebrill '24

76,200 tonnelli
+8% b-a-f



Cynhyrchiant cig defaid y DU
Ebrill '24

20,000 tonnelli
-8% b-a-f



Cynhyrchiant porc y DU
Ebrill '24

76,600 tonnelli
+8% b-a-f

